# GRANT CREU LLEOEDD TRAWSNEWID TREFI - CANOLBARTH CYMRU

## 2025 - 2027

## CANLLAW YMGEISIO

# FFEITHIAU ALLWEDDOL

### 1. Beth yw'r Grant?

Cynllun grant cyfalaf sy'n cwmpasu nifer o weithgareddau adfywio buddsoddiad cyfalaf yng nghanol trefi ar draws trefi yng Nghanolbarth Cymru, h.y. siroedd Powys a Cheredigion. Ariennir y cynllun gan Raglen Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru.

### 2. Ble Gall Buddsoddiadau Ddigwydd?

O dan raglen ariannu 2025-27, gall cynigion prosiect gael eu cyflwyno o unrhyw dref yn y rhanbarth o dan y Grant Creu Lleoedd.  Bydd angen i ymgeiswyr ddangos sut mae'r prosiectau'n cyd-fynd â chynllun creu lleoedd neu'r uwchgynllun tref ar gyfer canol tref. Gellir gweld copi o'r Cynllun Tref diweddaraf drwy'r Cyngor Tref.

### 3. Pryd Mae'r Cynllun Ar Agor?

Mae'r cynllun ar agor nawr a bydd angen i'r holl brosiectau gael eu cwblhau erbyn Rhagfyr 31 2026.

### 4. Faint o Grant Sydd Ar Gael?

Y gyllideb ar gyfer 2025-2027 yng Nghanolbarth Cymru yw £4M

Yr isafswm lefel costau prosiect cymwys y gellir eu hystyried yw £30,000 heb gynnwys TAW.  (ac eithrio'r Cynlluniau Amlennu Blaen Siopau, Trefi Digidol, Mannau Cyhoeddus, Cymorth Masnachu Allanol Canol Tref).

Mae ceisiadau wedi'u cyfyngu i uchafswm grant o £300,000 heb gynnwys TAW.

Bydd swm y grant a ddyfernir i brosiect yn dibynnu ar nifer o ffactorau gan gynnwys ystyriaethau Rheoli Cymhorthdaliadau, tystiolaeth Bwlch ariannu a hyfywedd y cynllun.

Dylid ystyried unrhyw gyllid a ddyrennir drwy'r Grant Creu Lleoedd fel y dewis olaf. Yn y lle cyntaf, mae angen archwilio'r holl lwybrau ariannu eraill gan gynnwys buddsoddiad preifat a benthyciadau, a rhaid i hyn gael ei dystio yn y ffurflen gais. Yn ogystal â lle mae ffrydiau cyllido pwrpasol yn cael eu nodi megis teithio llesol, Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol ac ati.

### 5. Pwy sy'n Gallu Gwneud Cais?

Mae'r cynllun yn agored i fusnesau preifat, gan gynnwys datblygwyr, busnesau'r trydydd sector, a'r sector cyhoeddus. Nid yw ar gael i unigolion preifat.

Gwiriwch gymhwysedd y cynllun rydych yn gwneud cais amdano, mae manylion ar gael yn Fframwaith Grant Ymyriadau Trawsnewid Trefi

### 6. Sut Mae'r Cynllun i'w Weinyddu?

Mae'r cynllun yn cael ei weinyddu gan swyddogion ym mhob Sir, a fydd ar gael i gynghori ymgeiswyr ynghylch sut i wneud cais cryf. Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn derbyn contract cyllido gan Gyngor Sir Powys.

## 7. Sut Mae Ceisiadau'n Cael Eu Hasesu?

Mae ceisiadau cymwys yn cael eu hasesu gan banel lefel sirol o swyddogion ac Aelodau'r Cabinet sy'n sgorio ceisiadau yn erbyn y meini prawf sgorio a gynhwysir yn y canllawiau. Yna anfonir prosiectau sy'n cael eu cymeradwyo at Banel Rhanbarthol Canolbarth Cymru i'w hystyried a'u cymeradwyo. Dylai'r broses hon gymryd rhwng 5 - 8 wythnos.

## 8. Sut Ydw i'n Gwneud Cais?

Astudiwch ddogfennau Fframwaith, Canllawiau a Chais y cynllun i edrych ar ba fath o gynlluniau sydd ar gael ac ystyried a yw hyn yn cyfateb i'r hyn rydych am ei wneud. Os felly, cysylltwch â'ch swyddog sir i drafod eich cynllun. Dilynwch y cyngor a dderbynnir ynghylch pa rannau o'r ffurflen i'w llenwi a pha dystiolaeth i'w darparu. Cynhelir paneli asesu'n rheolaidd i ateb y galw.

## 9. Oes Ad-daliad ar Grantiau os Gwerthir Eiddo?

Byddai eiddo sy'n derbyn cymorth grant tuag at eu datblygiad fel arfer yn destun ad-daliad os cânt eu gwerthu o fewn cyfnod o 5 mlynedd. Fodd bynnag, ni fyddem am atal diddordeb datblygwyr mewn mynd i'r afael â safleoedd / eiddo canol tref sydd angen eu datblygu, ac efallai y byddai'n bosibl ystyried cytundeb ar fecanwaith ar gyfer caniatáu gwaredu ar ôl gwaith datblygu heb hepgor yr holl grant a dderbyniwyd. Dylai datblygwyr sydd â diddordeb mewn archwilio'r opsiwn hwn gysylltu â'u swyddog lleol cyn gynted â phosibl. Mae angen cytuno ar hyn cyn unrhyw gymeradwyaeth grant.

## 10. Pa wybodaeth/dystiolaeth sydd ei hangen ar gyfer Budd i'r Gymuned

Mae'r Rhaglen Trawsnewid Trefi yn ymdrechu i helpu i ddatblygu economi ffyniannus yng Nghymru sy'n gallu cyflawni twf economaidd cryf a chynaliadwy drwy ddarparu cyfleoedd i bawb yng Nghymru. Dylai prosiectau sy'n elwa o gyllid cyhoeddus gyfrannu at les cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol nawr ac yn y dyfodol gyda'r nod o adeiladu cymunedau cryfach, lleihau allgáu cymdeithasol a thlodi, a chefnogi datblygiad yr economi.

Rhaid i ymgeiswyr wneud y mwyaf o'r buddion i'r gymuned a ddarperir drwy'r Cyllid drwy ddarparu, lle bo hynny'n berthnasol:

1. Cyfleoedd Hyfforddi a Chyflogaeth: contractwyr yn cael eu hannog i recriwtio a hyfforddi unigolion economaidd anweithgar fel rhan o'r gweithlu sy'n gweithio ar unrhyw gontract, yn uniongyrchol a/neu'n anuniongyrchol trwy'r gadwyn gyflenwi. Gallai hyn gynnwys cyflogaeth; prentisiaethau; profiad gwaith; treialon gwaith; neu gyfleoedd hyfforddi perthnasol eraill.
2. Cyfleoedd yn y Gadwyn Gyflenwi i fusnesau bach a chanolig sydd wedi'u lleoli yng Nghymru: Rhaid i gontractwyr llwyddiannus mewn unrhyw gaffaeliad ystyried cyfleoedd i fusnesau bach a chanolig, gan gynnwys mentrau cymdeithasol.
3. Cyfraniadau i'r Gymuned ac Addysg – megis lleoliadau profiad gwaith, diwrnodau gyrfaoedd ac ati.

## 11. Beth ddylid ei gynnwys yn y Cynllun Busnes?

Dylai'r cynllun busnes fod â digon o fanylion sy'n gymesur â graddfa eich cynnig. Rydym am weld y canlynol yn cael eu cynnwys:

- Sut rydych wedi penderfynu ar eich costau datblygu
- Sut rydych wedi penderfyu ar eich costau gweithredu yn y dyfodol
- Beth yw eich rhagdybiaethau a'ch rhagolygon ar gyfer incwm masnachu neu'r hyn rydych yn disgwyl ei dderbyn wrth werthu
- Rhagolwg elw a cholled ar gyfer 3 blynedd
- Cyfnod ad-dalu disgwyliedig ar fuddsoddiad
- Risgiau a chamau lliniaru allweddol
- Dealltwriaeth o unrhyw gystadleuaeth a'ch mantais
- Manylion eich profiad / arbenigedd neu rhai eich staff i ymgymryd â'r datblygiad

*Noder y gall Busnes Cymru eich helpu i lunio eich Cynllun Busnes os oes angen.*

Gwybodaeth ychwanegol sy'n benodol i'r cynllun:

**Uned Breswyl Ganol Tref**

- Math o dai a'r Galw am Feddiannaeth **-** Cadarnhewch y nifer a math o unedau tai a'u maint. Dylai cynlluniau geisio cydymffurfio â Gofynion Ansawdd Datblygu Cymru 2021 – gweler y ddolen ar waelod y ddogfen ganllawiau hon.
- Angen o ran Cyllid a Bwlch yn y Farchnad - Nodwch yr achos dros yr angen am gymorth arian cyhoeddus.
    - Atodwch brisiad annibynnol diweddar o'r eiddo fel y mae ar hyn o bryd YNGHYD â phrisiad annibynnol o'r hyn y bydd gwerth yr eiddo ar ôl gwaith i ddangos y bwlch rhwng costau datblygu yn erbyn gwerth dilynol.
    - Esboniwch pa fenthyciadau rydych yn gallu eu gwneud yn erbyn gwerth yr eiddo a pha drefniadau sydd gennych ar waith gyda thystiolaeth gysylltiedig ynghlwm.
    - Os yw incwm rhent yn rhan o'ch datrysiad cyllido - dangoswch ragdybiaethau byr a chyfrifiadau ad-dalu.
    - Mae Cymorth Grant ar gael i helpu i gau'r bwlch yn y farchnad ac mae hefyd yn dibynnu ar sefyllfa ariannol yr ymgeisydd – felly cyflwynwch ddatganiad banc a datganiad o gyfrifon diweddar os ydynt ar gael. Rhowch ddadansoddiad llawn o'ch pecyn cyllid arfaethedig.

**Cynlluniau Eiddo Masnachol**

- Angen o ran Cyllid a Bwlch yn y Farchnad - Nodwch yr achos dros yr angen am gymorth arian cyhoeddus.
    - Atodwch brisiad annibynnol diweddar o'r eiddo fel y mae ar hyn o bryd YNGHYD â phrisiad annibynnol o'r hyn y bydd gwerth yr eiddo ar ôl gwaith i ddangos y bwlch rhwng costau datblygu yn erbyn gwerth dilynol.
    - Esboniwch pa fenthyciadau rydych yn gallu eu gwneud yn erbyn gwerth yr eiddo a pha drefniadau sydd gennych ar waith gyda thystiolaeth gysylltiedig ynghlwm.
    - Os yw incwm rhent yn rhan o'ch datrysiad cyllido - dangoswch ragdybiaethau byr a chyfrifiadau ad-dalu.
    - Mae'r Cymorth Grant ar gael i helpu i gau'r bwlch yn y farchnad ac mae hefyd yn dibynnu ar sefyllfa ariannol yr ymgeisydd – felly cyflwynwch ddatganiad banc a datganiad o gyfrifon diweddar os ydynt ar gael. Rhowch ddadansoddiad llawn o'ch pecyn cyllid arfaethedig.
- Meddiannaeth y Safle - Rhowch amlinelliad byr o hanes y safle neu'r eiddo:
    - Pa mor hir y mae wedi bod yn wag / ei dan-ddefnyddio?

- Ar gyfer beth mae wedi cael ei ddefnyddio yn y gorffennol?
- Ydy’r eiddo mewn ardal gadwraeth a/neu’n adeilad rhestredig?
- Pam ydych chi'n meddwl y bydd eich defnydd arfaethedig yn gweithio?

**Cynlluniau seilwaith gwyrdd**

- Newid yn yr Hinsawdd - Amlinellwch sut mae'r buddsoddiad yn cyfrannu at fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, gan wella ansawdd yr amgylchedd yn y lleoliad hwn a helpu i greu ymdeimlad o les i drigolion / ymwelwyr. Disgrifiwch unrhyw atebion dylunio arloesol. Ydy'r cynllun yn mynd i'r afael ag unrhyw broblemau llifogydd / dŵr wyneb hysbys yn y lleoliad hwn?
- Y pum egwyddor seilwaith gwyrdd (GI) craidd y byddwn yn eu hystyried mewn perthynas â'ch cais yw:
  - Amlbwrpas
  - Bioamrywiol
  - Addaswyd ar gyfer Newid yn yr Hinsawdd
  - Iach
  - Clyfar a Chynaliadwy
- Angen o ran Buddsoddiad - Esboniwch pam mae angen y buddsoddiad yn y lleoliad penodol hwn (yn hytrach nag unrhyw leoliad arall yn y sir). Oes tystiolaeth i gefnogi hyn, megis Uwchgynllun ar gyfer y dref neu archwiliad gwyrdd?
- Amlinellwch yr ymrwymiad cynnal a chadw parhaus.

**Mannau Cyhoeddus**

- Yn ychwanegol - Eglurwch sut mae'r gwaith hwn yn amlwg yn ychwanegu at y gwaith mannau cyhoeddus arferol a wneir gan Awdurdodau Lleol neu Gynghorau Tref a pham y dylai'r cyllid adfywio hwn gyfrannu at y gwaith. Sut bydd y gwaith o fudd i fusnesau a'r gymuned leol?
- Angen - Esboniwch pam fod angen y gwaith yn y lleoliad hwn yn hytrach nag unrhyw leoliad arall. Ydy'r cynnig yn rhan o gynllun ehangach o fuddsoddi yn y dref megis Uwchgynllun?
- Amlinellwch yr ymrwymiad cynnal a chadw parhaus.

**Caffael Safleoedd**

- Meddiannaeth y Safle - Rhowch amlinelliad byr o hanes y safle neu'r eiddo:
- Pa mor hir y mae wedi bod yn wag / ei danddefnyddio?
- Ar gyfer beth mae wedi cael ei ddefnyddio yn y gorffennol?
- Ydy’r eiddo mewn ardal gadwraeth?
- Pam ydych chi'n meddwl y bydd eich defnydd arfaethedig yn gweithio? (Achos busnes)
- Angen - Dangoswch eich bod wedi ystyried ffyrdd amgen o sicrhau adfywio yn y lleoliad hwn heb fod yn rhaid troi at gaffael safle. (Os yn Awdurdod Lleol, a yw mesurau gorfodi cynllunio wedi'u harchwilio fel ffordd o sbarduno gwelliant?)

**Marchnadoedd Canol Tref**

- Angen - Esboniwch sut rydych chi'n gwybod bod angen a galw profedig am wella'r farchnad o ran seilwaith A defnydd cleientiaid terfynol. Pam ydych chi wedi dewis y dref a'r lleoliad hwn yn hytrach nag eraill?

**Defnydd Canol Tref yn y cyfamser**

- Angen - Esboniwch sut rydych chi'n gwybod bod angen a galw profedig am y cyfleuster o ran seilwaith A defnydd cleientiaid terfynol. Pam ydych chi wedi dewis y dref a'r lleoliad hwn yn hytrach nag eraill.

- Alinio – Esboniwch sut mae'r cynllun rydych yn ei gynnig yn alinio â Chanllaw Arfer Gorau Defnydd yn y Cyfamser Llywodraeth Cymru – gellir dod o hyd i'r ddolen ar ddiwedd y ddogfen hon.
- Buddion i Fusnes - Disgrifiwch faint o fusnesau fydd yn elwa o'ch buddsoddiad

**Masnachu Allanol Canol Tref**

- Canllawiau Dylunio - Cadarnhewch fod eich cynllun yn dilyn unrhyw ganllawiau dylunio technegol sydd ar gael ar gyfer eich ardal, gan nodi beth yw'r canllawiau hynny. Esboniwch yn fyr sut rydych wedi penderfynu ar eich dewis o offer neu ddodrefn stryd. Esboniwch sut nad yw'r cynllun yn effeithio'n andwyol ar fynediad i gerddwyr yn y lleoliad.
- Buddion i Fusnes - Disgrifiwch faint o fusnesau fydd yn elwa o'ch buddsoddiad a sut y byddant yn elwa yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol. Sut mae'r busnesau hyn wedi'u dewis i dderbyn cymorth? Ydy pob busnes yn y dref wedi cael cyfle i elwa? Os nad felly– pam?
- Yn ychwanegol - Esboniwch sut mae eich buddsoddiad yn amlwg yn ychwanegu at y math o fuddsoddiadau a gwaith y byddai eich sefydliad fel arfer yn eu gwneud gydag arian cyhoeddus arall. Mae angen i ni fod yn argyhoeddedig bod hyn yn ddefnydd da o gyllid adfywio.

**Cynllun Amlennu Blaen Siop**

- Canllawiau Dylunio - Cadarnhewch fod eich cynllun yn dilyn unrhyw ganllawiau dylunio technegol sydd ar gael ar gyfer eich ardal, gan nodi beth yw'r canllawiau hynny (Ardal gadwraeth er enghraifft).
- Buddion i Fusnes - Disgrifiwch faint o fusnesau fydd yn elwa o'r buddsoddiad hwn. Sut mae'r busnesau hyn wedi'u dewis i dderbyn cymorth? Ydy pob busnes yn y dref wedi cael cyfle i elwa? Os nad felly – pam?
- Clwstwr – Cyflwynwch fap o'r busnes a ddewiswyd i elwa i sicrhau bod eiddo yn gyfagos neu gerllaw mewn tref benodol i gyflawni màs critigol a mwy o effaith.

Gan fod yn rhaid i'r thema hon wella clwstwr o adeiladau, bydd y cais yn cael ei gyflwyno gan y Cyngor Tref, Grŵp busnes cyfansoddedig neu Grŵp Partneriaeth Canol Tref Cyfansoddedig. Mae canllawiau a dogfennaeth bellach ar gael gan eich Swyddog Awdurdod Lleol i gefnogi'r ymgeisydd gyda'r broses a'r cais.

**Trefi Digidol**

- Hyfywedd Technegol - Rhowch fanylion am yr offer technegol i'w defnyddio i gyflawni eich cynllun. Esboniwch pam eich bod wedi dewis y fanyleb hon. Sut ydych chi wedi lleihau'r tebygolrwydd o ddiswyddo technegol yn y dyfodol agos? Pa fath o Drefniadau cytundebol ydych chi'n bwriadu eu cael ar waith ar gyfer lleoli'r offer. Sut byddwch yn defnyddio'r data a gafwyd o'r offer?
- Cynnal a chadw - Disgrifiwch pa drefniadau y bydd gennych ar waith i redeg, cynnal a chadw ac uwchraddio'r offer. Sut bydd yn cael ei ariannu?

**Teithio Llesol**

- Angen - Esboniwch sut rydych chi'n gwybod bod angen a galw profedig am y cynllun rydych chi'n ei gynnig o ran seilwaith A defnydd cleientiaid terfynol. Pam ydych chi wedi dewis y dref a'r lleoliad hwn yn hytrach nag eraill.
- Cyd-fynd strategol – esboniwch sut mae'r mesurau Teithio Llesol hyn yn cyd-fynd â chynlluniau datblygu ehangach, ac yn cael eu hintegreiddio â gweithgareddau buddsoddi eraill yn yr ardal i greu mannau sydd wedi'u cysylltu'n dda ac yn cryfhau ac ategu darpariaeth teithio llesol ehangach a gefnogir gan Adran Drafnidiaeth Llywodraeth Cymru.
- Darparu tystiolaeth ei fod yn eistedd ochr yn ochr ond nad yw'n dyblygu cynlluniau a llwybrau presennol o fewn y Mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol – sy'n cael eu hariannu gan

y Gronfa Teithio Llesol. Sicrhewch y cysylltir ag Arweinwyr Teithio Llesol yr Awdurdod Lleol perthnasol.

### Darpariaeth Toiledau

- Angen - Esboniwch pa ddarpariaeth sydd ar gael ar hyn o bryd yn y dref a'r dystiolaeth sydd ar gael i ddangos yr angen strategol clir ar gyfer y ddarpariaeth arfaethedig.
- Cyd-fynd strategol – esboniwch sut mae'r mesurau hyn yn cyd-fynd â chynlluniau datblygu ehangach, ac yn cael eu hintegreiddio â gweithgareddau buddsoddi eraill yn yr ardal i greu mannau wedi'u cysylltu'n dda.
- Rhowch fanylion am unrhyw bartneriaeth â'r Awdurdod Lleol mewn perthynas â'r ddarpariaeth sy'n cael ei chynnig.
- Amlinellwch yr ymrwymiad cynnal a chadw a glanhau parhaus.

### Cyfleusterau Hamdden

- Angen - Esboniwch pa ddarpariaeth sydd ar gael ar hyn o bryd yn y dref a'r dystiolaeth sydd ar gael i ddangos yr angen strategol clir ar gyfer y ddarpariaeth arfaethedig.
- Cyd-fynd strategol – esboniwch sut mae'r mesurau hyn yn cyd-fynd â chynlluniau datblygu ehangach, ac yn cael eu hintegreiddio â gweithgareddau buddsoddi eraill yn yr ardal i greu mannau wedi'u cysylltu'n dda.
- Darparwch dystiolaeth y cafwyd ymgynghoriad ynghylch y cynigion yn lleol.
- Rhowch fanylion am unrhyw bartneriaeth â'r Awdurdod Lleol mewn perthynas â'r ddarpariaeth sy'n cael ei chynnig.
- Amlinellwch yr ymrwymiad cynnal a chadw parhaus.

### Prosiectau Masnachol a Phreswyl

Fel canllaw, gall y defnyddiau adeiladu a gwaith adeiladu canlynol ddenu cymorth grant:

#### Defnydd Adeiladau

Gofod llawr newydd neu wedi'i uwchraddio at ddefnydd busnes neu breswyl, gyda phob cynllun yn cael ei benderfynu ar ei rinweddau unigol, wedi'i asesu gan banel lleol a'i gyflwyno i fwrdd rhanbarthol. Bydd defnyddiau megis swyddfeydd, hamdden, manwerthu a bwyd a diod yn ogystal â llety preswyl yng nghanol y dref yn cael eu hystyried. Y prif ystyriaeth fydd cynlluniau i gyfrannu at adfywio economi'r dref. Mae cynlluniau preswyl yn fwy tebygol o fod yn dderbyniol lle maent yn galluogi datblygiad masnachol i gael ei lunio fel rhan o ddatblygiad cymysg. Fodd bynnag, gellid ystyried cynllun preswyl pur lle bydd adeilad canol tref gwag yn cael ei ddefnyddio ac yn cyfrannu at sbarduno’r galw am / defnydd o wasanaethau canol tref.

#### Gwaith Adeiladu

Gall gwaith allanol i flaen yr adeilad gynnwys gwaith yr ystyrir yn angenrheidiol ar gyfer cyfanrwydd strwythurol yr eiddo, gan gynnwys:

- Blaen Siopau
- Arwyddion
- Ffenestri a drysau
- Gwaith allanol
- Toeau a simneiau
- Nwyddau dŵr glaw (cafnau a phibellau dŵr)
- Rendro, glanhau ac atgyweirio cerrig, ailbwyntio
- Gwaith strwythurol

**Noder:** Gall gwaith adeiladu allanol fod yn ddarostyngedig i Ganllawiau Dylunio’r Cyngor lle bo'n briodol.

Mae gwaith mewnol yn gymwys fel rhan o becyn cynhwysfawr o welliannau allanol i'r adeilad, ac sy'n caniatáu newid defnydd neu ddod â gofod gwag yn ôl i'w ddefnyddio, megis:

- Ffenestri a drysau
- Gwell hygyrchedd
- Waliau, nenfydau, goleuadau
- Cyfleustodau a gwasanaethau
- Cyfleusterau lles
- Gwaith strwythurol

Bydd gofod llawr newydd yn gymwys ar gyfer masnachol neu breswyl, lle mae angen lleol am hyn wedi'i nodi.

Mae costau proffesiynol yn cael eu cynnwys, lle maent yn gysylltiedig â'r gwaith cyfalaf megis:

- Cyngor proffesiynol (e.e. pensaernïol, tirfesur, rheoli prosiectau)
- TAW – lle nad yw'r ymgeisydd yn gallu cofrestru ar gyfer TAW.
- Ffioedd statudol (Ceisiadau Cynllunio a Rheoliadau Adeiladu)

Costau anghymwys

- Ffioedd cyfreithiwr a ffioedd sy'n gysylltiedig â chael y benthyciad a'r grant
- Cynnal a chadw cyffredinol
- Eitemau sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r defnydd masnachol – gosodiadau a ffitiadau (cownteri, bariau, byrddau, cadeiriau ac ati)
- Unrhyw gostau gwaith a gafwyd cyn cymeradwyo'r grant.

**Dolenni Defnyddiol**

Gwelliannau i Eiddo

Pan fo cyllid grant yn cael ei ddefnyddio i gefnogi'r broses o ddarparu unedau tai, mae'n ofynnol i gynlluniau gydymffurfio â Gofynion Ansawdd Datblygu Cymru 2021 (WDQR 21) "Mannau a Chartrefi Prydferth" a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2021, gan gynnwys bodloni'r "gofynion gofod" fel y nodir yn Atodiad A ac Atodiad B

Gofynion Ansawdd Datblygu Cymru 2021 (llyw.cymru)

O ran gwerth am arian, rhaid i gynlluniau tai fforddiadwy roi sylw i "Ganllawiau Costau Derbyniol" Llywodraeth Cymru. Dylid trafod unrhyw gynllun nad yw'n bodloni WDQR 21 neu sydd â Mynegai Cost y Cynllun (fel y'i diffinnir yn y canllawiau) uwchlaw 120% gyda'ch Swyddog Prosiect.

https://gov.wales/sites/default/files/publications/2021-02/planning-policy-wales-edition-11_0.pdf

Effaith carbon

Mae'n ofynnol i chi ddangos yn glir sut rydych wedi ystyried allyriadau carbon eich cynigion a pha gamau rydych wedi'u cymryd neu y byddwch yn eu cymryd i'w lleihau neu eu gostwng.
Pan fo'r Cyllid yn cael ei ddefnyddio i gefnogi prosiectau effeithlonrwydd ynni domestig, rhaid i gynlluniau ddilyn meini prawf cyllido rhwymedigaeth cwmnïau ynni (ECO) Llywodraeth Cymru.

Low Carbon & Resource Efficient Construction Procurement | WRAP (wrapcymru.org.uk)

beyond-recycling-strategy-document.pdf (llyw.cymru)

https://www.claw.wales/assets/images/uploads/documents/RoutemaptonetzerocarbonbuildingsWales.pdf

Taflen ffeithiau 1 overview of the Environment (wales) bill saesneg (llyw.cymru)

Cynllun Adfer Natur Cymru - Rhan 1: Ein Strategaeth ar gyfer Natur (llyw.cymru)

Lleoedd Lleol ar gyfer Natur | Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol

Partneriaethau Natur Lleol Cymru - Hafan (lnp.cymru)

Lleoedd Lleol ar gyfer Natur - Cadwch Gymru'n Daclus

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015: canllawiau | LLYW. CYMRU

Trosglwyddo Asedau Cymunedol – Caffael Safleoedd

Trosglwyddo Asedau Cymunedol (CAT): canllawiau i ymgeiswyr | LLYW. CYMRU

Teithio Llesol

Hafan | DataMapWales (llyw.cymru)

Canllawiau'r Ddeddf Teithio Llesol | LLYW. CYMRU

Marchnadoedd Canol Trefi a Defnydd yn y Cyfamser

Comisiynodd ac ariannodd Llywodraeth Cymru Urban Foundry, Abertawe, i ddatblygu canllawiau arfer gorau ar gyfer Defnydd yn y Cyfamser a Marchnadoedd Stryd.

PopUp good practice guides | Urban Foundry | Creative regeneration agency

Trefi Digidol

Hafan | Tref Smart Trefi (smarttowns.cymru)

Darpariaeth Toiledau

Hafan - Un Llais Cymru

Cyfleusterau Hamdden

Hafan - Comisiynydd Plant Cymru (childcomwales.org.uk)

Play Wales | Chwarae Cymru

Cynllun plant a phobl ifanc | LLYW.CYMRU

Play sufficiency toolkit| LLYW.CYMRU

Cymru: gwlad lle mae cyfle i chwarae (llyw.cymru)

Cynlluniau Busnes

Hafan | Busnes Cymru

## Telerau ac Amodau'r Grant

1. Bydd y grant yn cael ei ddefnyddio at yr union ddiben a nodir yn y ffurflen gais.

2. Rhaid i ymgeiswyr gydymffurfio â phroses gaffael yr awdurdod lleol perthnasol ar gyfer gwaith sy'n gysylltiedig â'r grant.

3. Ni fydd cais llwyddiannus am grant yn awgrymu unrhyw barhad o gyllid ar gyfer y prosiect ac ni fydd yn derbyn cyllid yn awtomatig ar gyfer unrhyw brosiectau dilynol.

4. Ni fydd yr ymgeisydd yn gwneud unrhyw newidiadau mawr i'r prosiect heb dderbyn cytundeb ysgrifenedig gan y Cyngor yn gyntaf.

5. Bydd yr ymgeisydd yn cydymffurfio ag unrhyw ddeddfwriaeth a chymeradwyaethau statudol sy'n berthnasol i gyflawni'r prosiect.

6. Rhaid cwblhau gwaith o fewn y cyfnod grant y cytunwyd arno oni bai mewn amgylchiadau eithriadol bod y Cyngor yn cymeradwyo estyniad o'r cyfnod hwn yn ysgrifenedig.

7. Mae'r grant yn cael ei dalu mewn ôl-ddyledion a rhaid i'r holl anfonebau, derbynebau, cyflogres, taflenni amser gwreiddiol neu dystiolaeth arall o daliad fod ar gael ar gyfer yr holl wariant sy'n ymwneud â'r prosiect, yn ogystal â thystiolaeth taliad o'r holl wariant pan fydd yr ymgeisydd yn gwneud hawliad am y grant.

8. Rhaid i bob derbynnydd grant sicrhau bod eu cofnodion a'u gweithgareddau ar gael i'w harchwilio gan Swyddogion a benodir gan y Cyngor.

9. Gellir rhannu'r wybodaeth a ddarperir ar y ffurflen gais a'r papurau ategol er mwyn atal twyll. Gellir rhannu'r wybodaeth hefyd â chyrff eraill sy'n gweinyddu arian cyhoeddus, at y diben hwn.

10. Gall Llywodraeth Cymru neu'r Cyngor gynnwys manylion am eich sefydliad a'ch busnes, y Cyllid a'r Dibenion mewn deunyddiau hyrwyddo Llywodraeth Cymru. Byddwch hefyd yn cytuno ymhellach i gydweithredu â'n ceisiadau rhesymol i gyflawni cynhyrchu deunyddiau o'r fath.

11. Bydd angen i bob ymgeisydd llwyddiannus gydnabod eu bod wedi derbyn cefnogaeth gan Gronfa Rhaglen Creu Lleoedd Trefi Trawsnewid ym mhob dogfen gyhoeddusrwydd, sylw yn y cyfryngau, arwyddion ac ati. Mae gwybodaeth bellach am frandio a chanllawiau ar gael ar y ddogfen ganlynol: [Trawsnewid Trefi: canllawiau cyhoeddusrwydd a brandio | LLYW. CYMRU]

12. Os bydd manylion cyswllt yr ymgeisydd fel y'u nodir yn y cais yn newid, rhaid i'r ymgeisydd hysbysu'r Cyngor ar unwaith a darparu'r manylion newydd.

13. Bydd yr ymgeisydd yn cwblhau adroddiad monitro ar gwblhau'r prosiect fel sy'n ofynnol gan y Cyngor a thargedau a chanlyniadau penodol fel y manylir yn y llythyr cynnig.

14. Byddai'n ofynnol ad-dalu'r grant yn llawn pan ofynnir os canfyddir bod yr ymgeisydd wedi gwneud unrhyw gamgynrychiolaeth; wedi torri telerau ac amodau'r grant; neu, nad yw'r eiddo yn cael ei adfer yn llawn o fewn 12 mis o unrhyw ddigwyddiad sy'n achosi colli neu ddifrod i'r eiddo.

**15. AD-DALU'R GRANT**

15.1 Perchenogaeth eiddo rhydd-ddaliadol

Os byddwch yn gwaredu eiddo o fewn eich perchnogaeth sydd wedi derbyn unrhyw ran o'r Cyllid yn rhan o'r Dibenion, yna bydd ad-daliad yn berthnasol yn yr amgylchiadau canlynol:

a. Pan fo cyllid o'r fath yn llai na £1000,000 neu'n ymwneud â chynlluniau pedestreiddio / dad-bedestreiddio, rheoli traffig, gwelliannau priffyrdd, gwelliannau amgylcheddol, neu unrhyw adroddiadau dichonoldeb ac ati neu unrhyw waith sy'n ymwneud â'r uchod, ni fydd unrhyw ad-daliad yn berthnasol ar ôl gwaredu, ar yr amod nad oes potensial ar gyfer gwerth datblygu yn y dyfodol.

b. Pan fo'r cyllid yn £100,000 neu fwy, yna bydd yr ad-daliad i ni yn swm cymesur yn seiliedig ar lefel y cyllid a roddir o'i gymharu â lefel y cyllid a roddir gennych. Bydd angen i chi ddarparu tystiolaeth o lefel y cyllid rydych wedi'i roi i'r eiddo, ynghyd ag adroddiad annibynnol cyfredol sy'n nodi gwiriad gwerth marchnad agored ("yr OMV") yr eiddo ar y dyddiad gwaredu. Os darperir math arall o brisiad, rhaid i'r adroddiad prisio annibynnol ddilysu'r ffurf o brisiad sy'n cael ei ddefnyddio.

c. Pan fo'r cyllid yn ymwneud â safle datblygu:-

    i. os yw'r OMV gwaredu neu werth gweddilliol y safle datblygu yn llai na'r cyllid a roddir, yna bydd yr ad-daliad i ni yn swm cymesur yn seiliedig ar lefel y cyllid grant a roddir gennych. Bydd angen i chi ddarparu tystiolaeth o lefel y cyllid rydych wedi cyfrannu at y safle datblygu o'ch cronfeydd eich hun, ynghyd ag adroddiad annibynnol cyfredol sy'n darparu gwirio OMV y safle datblygu ar y dyddiad gwaredu.

    ii. os yw'r gwerth gwaredu yn hafal i lefel y cyllid, yna yr ad-daliad yw swm llawn y cyllid.

    i. os yw'r gwerth gwaredu yn fwy na'r cyllid, yna yr ad-daliad yw swm llawn y cyllid.

ch. Os ydych o'r farn bod newid mewn amgylchiadau sy'n ymwneud ag ad-dalu neu mewn perthynas â gwerth gwaredu eiddo y dylem fod yn ymwybodol ohono, dylech gyfeirio'r mater at y Swyddog Prosiect.

d. Bydd prosiectau a gynorthwyir gan grant o £100,000 neu fwy yn gofyn am dâl cyfreithiol i'r eiddo a gynorthwyir gan grant yn unol ag amodau sy'n gysylltiedig â dyfarniad cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer rhaglen Trawsnewid Trefi Canolbarth Cymru.

15.2 Perchenogaeth eiddo trydydd parti

a. Pan fo cyllid grant wedi'i roi i drydydd parti ar gyfer adnewyddu neu adeiladu eiddo o'r newydd a bod y trydydd parti yn gwaredu, o fewn y cyfnod grant o 5 mlynedd os yw'r cyllid grant yn £100,000 - £300,000, yna'r ad-daliad yw'r lefel lawn o gyllid grant a roddwyd oni bai y cytunwyd yn wahanol ar adeg cymeradwyo'r grant.

b. Os ydych yn ymwybodol o unrhyw newid mewn amgylchiadau sy'n ymwneud â'r ad-daliad sy'n ddyledus i ni yn rhinwedd y darpariaethau hyn, yna dylech siarad â'r Swyddog Prosiect ar yr adeg briodol. Mae darpariaethau ad-daliad o'r fath yn ychwanegol at ein hawliau a gynhwysir yn nhermau ac amodau Grant Creu Lleoedd Trawsnewid Trefi.

c. Bydd prosiectau a gynorthwyir gan grant o £100,000 neu fwy yn gofyn am dâl cyfreithiol i'r eiddo a gynorthwyir gan grant yn unol ag amodau sy'n gysylltiedig â dyfarniad cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer rhaglen Trawsnewid Trefi Canolbarth Cymru.

Yn achos safleoedd datblygu sydd ag ôl-werth, bydd telerau ac amodau penodol mewn perthynas â Grantiau Datblygu Eiddo yn berthnasol.